**Llythyr Disgyblion Bodhyfryd**

Annwyl ymgeisydd,

Diolch am ddangos diddordeb yn swydd Pennaeth Ysgol Bodhyfryd, Wrecsam. Ar ran yr holl ddisgyblion, hoffem ni, fel cyngor yr Ysgol, roi disgrifiad i chi o Ysgol Bodhyfryd.

Mae Ysgol Bodhyfryd yn Ysgol Gymraeg ac mae Cymru a'r Gymraeg yn bwysig iawn i ni. Mae ein hysgol yn lle hapus, yn rywle lle teimlwn yn saff, yn lle llawn hwyl gyda phlant ac athrawon caredig. Yma y byddwn ni'n dysgu, ond yma hefyd byddwn yn chwarae, gwneud ffrindiau a helpu ein gilydd. Y geiriau ar y logo ar ein siwmperi yw 'Gyda'n Gilydd', gyda'n gilydd fel athrawon a disgyblion – rydym eisiau Pennaeth fydd yn ein helpu i gario ymlaen fel hyn.

Er mwyn i chi gael gweld gymaint rydym ni'n meddwl o Ysgol Bodhyfryd rydym ni eisiau rhannu rhai o'n hoff bethau am yr ysgol:

Mae'n le da i ddysgu, gyda gwersi diddorol a phynciau gwahanol.
Mae ein hathrawon yn garedig, yn gyfeillgar, yn dda yn dysgu ac yn Gymraeg. Mae'r athrawon hefyd yn gwrando arnom ac yn gofyn in ni pa wersi a themâu yr ydym eisiau eu dysgu.
Mae'r ysgol yn lle diogel, braf, gyda lot of lefydd gwahanol i ddysgu ac i chwarae.
Mae gennym lot o dimau chwaraeon sy'n cystadlu a llawer o glybiau ar ôl ysgol fel y clwb canu, pêl droed, pêl rwyd, celf, gemau bwrdd a llawer mwy.
Mae'n lle yr ydym yn cael ein parchu, ac yn lle y dylem barchu pobl eraill.
Mae'r ysgol yn le Cymraeg, caredig.

Rydym eisiau i'n Pennaeth newydd fod yn:

Berson caredig sy'n siarad Cymraeg yn dda.
Rhywun sydd yn ein harwain ni, ein dysgu ni a'n cadw ni'n ddiogel a saff.
Hoffwn gael rhywun fydd yn gwybod ein henwau, yn dweud bore da, ac yn cymryd diddordeb ynom – nid dim ond yn y gwaith ond ein bywyd a'n hobïau.
Rydym eisiau rhywun sy'n cael hwyl efo ni ond hefyd yn cadw trefn a gwneud hynny'n deg.
Rydym eisiau unigolyn a fydd yn ein cefnogi.
Fel cyngor ysgol rydym yn chwilio am rywun fydd yn cydweithio gyda ni – 'Gyda'n Gilydd'.

Diolch,
Cyngor Ysgol Bodhyfryd

PENNAETH/HEADTEACHER: NERYS DAVIES

E: mailbox@bodhyfryd-pri.wrexham.sch.uk T: 01978 351168 F: 01978 310307 W: bodhyfryd-pri.wrexham.sch.uk
Ysgol Bodhyfryd, Ffordd Brynycabanau, Wrecsam, LL13 7DA